Ysgol Uwchradd
Gatholig ac Anglicanaidd
Sant Joseff

Er mwyn cydnabod yr ysbryd o gytgord a phartneriaeth sy'n nodweddu twf yr ysgol ranedig hon, cytunwyd y bydd un Panel Derbyn yn cael ei sefydlu i ymdrin â'r holl dderbyniadau yn y dyfodol. Bydd cynrychiolwyr o'r ddau enwad crefyddol yn ffurfio'r panel hwn.

Polisi Derbyniadau

Nifer derbyn yr ysgol ar gyfer Blwyddyn 7 yw 130.

Mae'r corff llywodraethol yn bwriadu derbyn 130 o ddisgyblion heb ystyried eu gallu na'u dawn.

Bydd y llywodraethwyr yn ystyried ceisiadau ac yn dyrannu 130 o leoedd, yn unol â'r dystiolaeth o ymroddiad gan rieni a phlant i'r addysg enwadol gynhwysfawr sy'n cael ei chynnig yn Ysgol Sant Joseff. Dyrennir lleoedd yn unol â'r gymhareb sylfaenol a bennwyd wrth sefydlu'r ysgol: bydd 60% o'r disgyblion a dderbynnir o deuluoedd Pabyddol a 40% o'r disgyblion a dderbynnir o deuluoedd Anglicanaidd. Mae'r llywodraethwyr yn cydnabod bod aelodau o gymunedau eglwysig eraill wedi bod yn rhan o fywyd Sant Joseff ac yn parhau i fod yn rhan o'i bywyd, ac maent yn ymroddedig i gynnal hyn o fewn cyfyngiadau'r niferoedd sy'n gwneud cais am le yn yr ysgol.

Bydd ceisiadau am un o'r 130 o leoedd sydd ar gael yn cael eu hystyried gan y llywodraethwyr yn nhrefn y blaenoriaethau isod.

Rhoddir y flaenoriaeth gyntaf i geisiadau sy'n cael eu derbyn erbyn y dyddiad cau sy'n enwi Ysgol Sant Joseff fel yr ysgol ddewisol gyntaf. Yna, os oes mwy o leoedd ar gael, bydd ceisiadau sy'n enwi Ysgol Sant Joseff fel yr ail ysgol ddewisol yn cael eu hystyried. Bydd ceisiadau sy'n cael eu derbyn ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu hystyried ar ôl y ceisiadau sy'n enwi Ysgol Sant Joseff fel yr ail ysgol ddewisol.

Dewis cyntaf

Mae'r categori hwn yn cynnwys yr holl geisiadau lle mae'r rhieni'n mynegi yr hoffent i'w plant gael addysg enwadol gynhwysfawr trwy enwi Ysgol Sant Joseff fel eu hysgol ddewisol gyntaf ar y ffurflen gais gyffredin.

Yna, ystyrir ceisiadau yn ôl y blaenoriaethau canlynol:

A1 Rhan 1

Plant o gymunedau y mae'r ysgol wedi'i henwi i'w gwasanaethu'n bennaf:

(a) Plant Pabyddol sydd wedi'u bedyddio ac sy'n mynychu ysgolion cynradd Pabyddol.
(b) Plant Pabyddol sydd wedi'u bedyddio ac sy'n byw yn nalgylch Esgobaethol yr ysgol.
(c) Plant eraill sy'n mynychu ysgolion cynradd Pabyddol.

(78 o blant)

Os bydd yr ysgol yn cael mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael, defnyddir y meini prawf canlynol i benderfynu pwy fydd yn cael eu derbyn:

1. *Tystiolaeth o ymglymiad sacramentaidd.*

2. *Tystiolaeth o gysylltiad gweithredol â chymuned yr eglwys.*

3. *Nifer y blynyddoedd y bu'r plentyn yn mynychu ysgol fwydol Babyddol.*

4. *Nifer y blynyddoedd y bu'r teulu'n cefnogi'r eglwys.*

A1 Rhan 2
Plant teuluoedd sy'n chwarae rhan weithredol yng nghymuned leol yr Eglwys yng Nghymru.

(52 o blant)

Os bydd yr ysgol yn cael mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael, defnyddir y meini prawf canlynol i benderfynu pwy fydd yn cael eu derbyn:

1. *Tystiolaeth bod y teulu'n chwarae rhan weithredol mewn cefnogi'r eglwys.*

2. *Tystiolaeth o ryw fath o weithgarwch gweithredol mewn cefnogi'r eglwys.*

3. *Nifer y blynyddoedd y bu'r teulu'n gysylltiedig â chefnogi'r eglwys.*

A2 Plant teuluoedd sy'n chwarae rhan weithredol mewn cymunedau eglwysig Cristnogol lleol o enwadau eraill.

Defnyddir y meini prawf canlynol, yn eu trefn, i benderfynu pwy fydd yn cael eu derbyn ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar gael:

1. *Tystiolaeth bod y teulu'n chwarae rhan weithredol mewn cefnogi'r eglwys.*

2. *Tystiolaeth o ryw fath o weithgarwch gweithredol mewn cefnogi'r eglwys.*

3. *Nifer y blynyddoedd y bu'r teulu'n gysylltiedig â chefnogi'r eglwys.*

A3 Plant o grefyddau eraill

Defnyddir y meini prawf canlynol, yn eu trefn, i benderfynu pwy fydd yn cael eu derbyn ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar gael:

1. *Tystiolaeth o ymroddiad i gymuned grefyddol.*

A4 Plant teuluoedd sy'n aelodau, ond nid yn aelodau gweithredol, o gymunedau eglwysig lleol, lle mae'r rhieni wedi rhoi rhesymau penodol sy'n haeddu blaenoriaeth ym marn y Corff Llywodraethol.

Defnyddir y meini prawf canlynol, yn eu trefn, i benderfynu pwy fydd yn cael eu derbyn ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar gael:

1. *Tystiolaeth o rywfaint o weithgarwch wrth gefnogi'r eglwys.*

2. *Nifer y blynyddoedd y bu'r teulu'n gysylltiedig â chefnogi'r eglwys.*

3. *Pwysigrwydd y rhesymau a roddwyd gan y rhieni.*

A5 Plant nad oes modd eu derbyn dan gategorïau 1 – 4, ond sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar yr adeg y byddant yn cael eu derbyn.

Defnyddir y meini prawf canlynol ar gyfer unrhyw leoedd sy'n weddill:

1. *Y nifer fwyaf o flynyddoedd y bydd y brodyr a'r chwiorydd gyda'i gilydd fel rhan o gymuned yr ysgol fydd y ffactor a fydd yn penderfynu.*

2. *Pwysigrwydd y rhesymau a roddwyd gan y rhieni i gefnogi'r cais.*

A6 Plant sy'n destun cais gan yr AALl i gael eu derbyn.

A7 Plant eraill y mae'r Llywodraethwyr yn fodlon bod addysg grefyddol a natur nodedig yr ysgol o bwys mawr i'r rheiny sy'n gwneud cais.

Ail ddewis

Os oes lleoedd ar gael o hyd ar ôl ystyried y ceisiadau sy'n enwi Ysgol Sant Joseff fel eu dewis cyntaf, ystyrir ceisiadau gan rieni sydd wedi rhoi'r ysgol fel eu hail ddewis. Ystyrir y ceisiadau hyn yn unol â'r un meini prawf ac yn yr un drefn a'r ymgeiswyr a nododd yr ysgol fel eu dewis cyntaf.

Nodiadau:

DATGANIADAU O ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG: Yn unol â Chôd Ymarfer DfES ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig, mae'n ofynnol i'r Llywodraethwyr dderbyn plentyn sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig gan yr AALl sy'n enwi'r ysgol, yn ôl y gyfraith. Gallai hyn leihau nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae ymgynghoriad â llywodraethwyr yr ysgol yn rhan o'r broses hon cyn y rhoddir enw'r ysgol ar y datganiad.

APELIADAU: Os yw'r Llywodraethwyr yn anfon llythyr i ddweud na allant gynnig lle, gall rhieni apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Rhaid i rieni gyflwyno apêl yn ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr cyn pen 14 diwrnod o dderbyn y llythyr. Yna, bydd panel apêl annibynnol, a sefydlir ar ran Esgobaeth Wrecsam ac Esgobaeth Llanelwy, yn clywed yr apêl.

GRWPIAU BLWYDDYN ERAILL: Mae derbyniadau'n dibynnu ar p'un a oes lleoedd ar gael ai peidio ac yn rhwym wrth yr un meini prawf.

Y LLYWODRAETHWYR YN TYNNU LLEOEDD YN ÔL: Dylai rhieni nodi y gallai'r Llywodraethwyr dynnu lleoedd yn ôl os ydynt yn darganfod tystiolaeth o geisiadau gan rieni sy'n dwyllodrus neu'n fwriadol gamarweiniol, sydd mewn gwirionedd, wedi arwain at wrthod lle i riant sydd â chais cryfach. Gwneir y datganiad hwn yn unol â 'Chôd Ymarfer Derbyniadau Ysgol (Cynulliad Cenedlaethol)' paragraff 3.18, tudalen 10.